Hydref 2010

Y trydydd sector a gwariant cyhoeddus

Cyflwyniad

1. Paratowyd y papur hwn gan y trydydd sector. Mae'n edrych ar oblygiadau'r sefyllfa o ran gwariant cyhoeddus i'r trydydd sector, a sut mae'n ymateb.

2. Mae llawer o fudiadau trydydd sector nad ydynt yn gofyn am nac yn derbyn arian cyhoeddus. Maent yn grwpiau bach sy'n ariannu eu gweithgareddau eu hunain. Mae cyllid y sector cyhoeddus, fodd bynnag, o bwys mawr i lawer o fudiadau, ac i'r bobl a'r cymunedau maent yn gweithio â hwy. Mae'n rhoi llwyfan ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau sy'n elfen hanfodol o'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach y mae pobl a chymunedau'n dibynnu arnynt.

3. Dros y degawd diwethaf mae almanac trydydd sector WCVA wedi dangos dealltwriaeth gynyddol fanwl o sut y mae'r trydydd sector yn cael ei ariannu yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod oddeutu 32% o gyllid y sector yng Nghymru yn dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, a bod oddeutu 13% yn dod oddi wrth lywodraeth leol a byrddau iechyd lleol.

4. Er bod hyn yn hanfodol i'r mudiadau dan sylw, mae'n cynrychioli elfen fechan iawn o gyfanswm cyllidebau cyllidwyr y sector cyhoeddus – gweler isod.



5. Er bod cyllid gan lywodraeth genedlaethol a lleol wedi cynyddu yn ystod y deng mlynedd diwethaf, dim ond 2.8% o gyfanswm ei chyllideb a wariwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y sector yn 2008-09. Mae llywodraeth leol yn gwario 3% yn unig. Nid yw cyllid gan gyrff iechyd wedi cynyddu ar yr un raddfa â chwyddiant yn ystod yr un cyfnod, a dim ond 0.3% o gyfanswm y gwariant ar iechyd yng Nghymru sy'n cael ei fuddsoddi yn y trydydd sector.

6. Agwedd fwyaf arwyddocaol cyllid llywodraeth ganolog yw ei “hymrwymiad cyllido strategol tymor hir” i ddarparu cyllid craidd i fudiadau, rhwydweithiau neu bartneriaethau sy’n gweithio ar lefel Cymru gyfan. Mae llywodraeth leol yn gyllidwr craidd pwysig i fudiadau lleol, ac mae’r duedd yn dangos cynnydd mewn cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau yn hytrach na grantiau.

7. Yr hyn sy’n unigryw yw bod y rhan fwyaf o fudiadau trydydd sector yn ychwanegu gwerth ariannol uniongyrchol at unrhyw gyllid a dderbynnir gan y sector cyhoeddus, gan sicrhau cyllid o ffynonellau ychwanegol yn ogystal ag ychwanegu gwerth ymarferol drwy ymdrechion eu gwirfoddolwyr.

8. Mae’r pwysau presennol ar wariant cyhoeddus yn ddigon hysbys i’r trydydd sector ac mae’n ymwybodol y bydd gostyngiad yn lefel y cyllid a fydd ar gael. Fodd bynnag, y gobaith yw na fydd hynny, pan yn bosibl yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen. Dylai sicrhau bod arbedion yn cael eu gwneud drwy symleiddio systemau gweinyddu’r sector cyhoeddus fod yn flaenoriaeth bwysig fel rhan o’r broses effeithlonrwydd a rhesymoli.

9. Mae profiad o’r gorffennol yn dangos pan mae’r sector cyhoeddus o dan bwysau, y reddf gyntaf yw lleihau neu dorri cyllid yn gyfan gwbl ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau sy’n cael eu darparu drwy gontract neu gan eraill, yn hytrach na’r rhai y mae’r sector cyhoeddus ei hun yn eu darparu. Nid yw’n syndod felly bod y trydydd sector yn ofni’r effeithiau a gaiff gostyngiad anghymesur mewn cyllid ar eu gallu i wasanaethu eu cymunedau.

10. Mae rhesymau digonol, fodd bynnag, dros ddiogelu cyllid i’r trydydd sector yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae’n cyflogi dros 50,000 o bobl, ac mae’n cynnwys dros 1.8m o bobl fel gwirfoddolwyr sydd nid yn unig yn gweithio i sicrhau buddiannau gwirioneddol i bobl a chymunedau, ond sydd hefyd yn datblygu eu sgiliau a’u galluoedd eu hunain drwy eu gwaith gwirfoddol, a thrwy eu cyfraniad at eu cymunedau. Mae annog ymdrechion yn y gymuned a hunan gymorth wedi bod yn bwysig erioed, ond mae’n bwysicach nag erioed yn awr yn yr amgylchiadau economaidd presennol.

11. Mae mentergarwch lleol a chynnwys y gymuned yn gwneud cyfraniad yr un mor bwysig at adfywio cymunedol ac economaidd, gan helpu i greu swyddi, codi lefelau sgiliau a mynd i’r afael â phroblemau sy’n gysylltiedig â thlodi. Mae her newid yn yr hinsawdd yn gofyn am weithredu ar bob lefel gyda chydnabyddiaeth gyffredinol y bydd gweithredu gan unigolion a chymunedau’n digwydd cyn unrhyw weithredu gwleidyddol a fydd yn anorfod yn y diwedd. Mae’r ymgyrchu a’r gweithredu ar lawr gwlad yn debygol o gael eu gyrru gan y trydydd sector.

12. Os derbynnir fod y trydydd sector yn gyfrwng priodol i gyflawni rhai o’r amcanion ehangach hy, yna mae’n amlwg y dylai’r trydydd sector a llywodraeth weithio mewn partneriaeth i ddeall yn well yr enillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau y mae’r trydydd sector yn eu sicrhau ac i weithio â’i gilydd i fanteisio i’r eithaf ar botensial llawn y cyfraniad y gall y sector ei wneud at fywyd cyhoeddus a chymdeithas sifil mewn hinsawdd economaidd sydd wedi’i gweddnewid.

13. Mae’r sector yn derbyn y pwysau a fydd ar y gyllideb, ond gallai toriadau tymor byr mewn cymorth i’r sector olygu mwy o broblemau yn y dyfodol. Dylid rhoi blaenoriaeth felly i wariant sy’n:

    - Rhoi sylw i anghenion gwasanaethau presennol pobl yng Nghymru
    - Diogelu cyfanrwydd y sector i’w alluogi i ddal ati i roi sylw i anghenion y presennol a’r anghenion na ellir eu rhagweld dros y tymor hir

- Cynnig y gwerth gorau am y bunt Gymreig drwy ddenu adnoddau (ariannol a dynol) o ffynonellau eraill
- Meithrin hunan gymorth a menter, ac ymatebion unigol a chymunedol i anghenion.

Cynllunio cyllidebau

14. Yn ystod y cam hwn o'r broses o gynllunio cyllidebau, mae'n anodd i ymddiriedolwyr mudiadau sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill baratoi cynlluniau cyllidebau manwl. Mae'r llythyr diweddar ar y cyd oddi wrth Weinidogion / WCVA wedi bod yn ddefnyddiol iawn i bennu'r amserlen a rhagdybiaethau cynllunio cyffredinol, yn ogystal â'r ymrwymiadau i gynnal trafodaethau â'r sector, ac i asesu effaith penderfyniadau cyllidebol ar y trydydd sector.

15. Mae WCVA wedi llunio strategaeth ar gyfer cyllidebau, ac mae'n cynnwys:

    - llunio amserlen sy'n dangos sut a pha bryd y gwneir penderfyniadau a chynnwys staff ac ymddiriedolwyr
    - rhewi cyflogau
    - cadarnhau blaenoriaethau
    - datblygu busnesau newydd
    - adolygu gweithgareddau i asesu eu heffeithiolrwydd a'u gwerth am arian
    - addasu'r llwyth gwaith os yw niferoedd staff yn lleihau
    - symleiddio prosesau, trefniadau rheoli a gwasanaethau cefn swyddfa
    - sicrhau bod eu cyflenwyr yn rhewi eu costau (neu chwilio am gyflenwyr eraill)

16. Mae mudiadau eraill yn paratoi amodau cyllidebol sy'n seiliedig ar y rhagdybiaethau a ddefnyddir gan eu cyllidwyr (yn debyg neu, mewn rhai achosion, yn uwch a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad). Mae'n anorfod na fydd modd iddynt gwblhau eu cyllidebau hyd nes bydd penderfyniadau cyllido wedi'u gwneud, ac nid yw hynny'n debygol o fod cyn mis Chwefror.

17. Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn mynd ati i geisio agor trafodaethau rhwng y sector yn eu hardal, a'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnal trafodaethau â'r sector yn eu hardal ynglŷn â'r sefyllfa gyllido, nid yn unig er mwyn sicrhau bod mudiadau'n ymwybodol o'r datblygiadau, ond hefyd i drafod opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau a dulliau newydd o weithio â'i gilydd. Er enghraifft, drwy'r compact â'r trydydd sector, mae rhai awdurdodau lleol wedi cytuno â CGSau i sefydlu cyd-weithgorau trydydd sector / awdurdod lleol, neu i drefnu cyfres o gyfarfodydd â'r sector i drafod effaith y gyllideb.

18. Ceir cydweithio tebyg yn y maes iechyd. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio â'r cynghorau gwirfoddol sirol yn ei ardal i "ddylunio ar y cyd" pa rôl y gall y trydydd sector ymgymryd â hi i fod yn rhan o'r system iechyd, gofal cymdeithasol a lles gyfan. Maent yn edrych sut y gallant gynyddu rôl y trydydd sector yn ogystal â rolau gofalwyr a gwirfoddolwyr. Maent hefyd yn ystyried porth caffael ar draws ardal Hywel Dda mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a'r CGSau i gynhyrchu manylebau gwasanaeth mwy penodol y gellir eu cyflawni drwy dendrau ar y cyd gan grŵp o fudiadau trydydd sector, o elusennau cenedlaethol mawr i grwpiau bach lleol. Os yw dylunio ar y cyd o'r fath yn mynd i gael ei wneud yn dda ac os yw am ddarparu gwasanaethau gwell o dan yr amgylchiadau ariannol cyfyngedig yna mae Hywel Dda yn credu y bydd angen deuddeg i ddeunaw mis ac felly bydd yn ceisio ymestyn contractau cyfredol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf i alluogi'r gwaith datblygu hwn i gael ei gyflawni, i atal bylchau mewn gwasanaethau

ac, os bydd angen, i alluogi mudiadau i gael digon o amser i gynllunio strategaeth gadael.

Effeithlonrwydd

19. Mae mudiadau trydydd sector fel arfer yn gweithredu gyda chyn lleied o waith gweinyddol a gwasanaethau cefn swyddfa â phosibl, ac maent wrthi'n barhaus yn adolygu costau (er enghraifft, dywed un mudiad na fu dim cynnydd yng nghostau rhedeg ei swyddfa yng Nghymru drwy gydol y 5 mlynedd diwethaf). Ond mae'r cyfleoedd i leihau costau rhedeg, heb iddynt gael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir, yn brin.

20. O gofio bod y cyllid sydd ar gael i'r trydydd sector yng Nghymru gan y sector cyhoeddus fel rhan o gyfanswm gwariant y llywodraeth yn cyfrif am ganran fach ar hyn o bryd, bydd arbedion cost gan fudiadau trydydd sector yn cael effaith fach yn unig ar yr arbedion y bydd yn rhaid eu gwneud mewn gwariant cyhoeddus. Bydd llai o gyllid, fodd bynnag, yn cael effaith sylweddol ar allu mudiadau trydydd sector i gael gafael ar adnoddau ychwanegol, fel yr oeddent yn arfer ei wneud. Felly bydd yr effaith negyddol ar bobl a chymunedau yn gymesur fwy; gan arwain at fwy o faich ar wariant cyhoeddus yn y tymor hwy.

21. Er hynny, mae mudiadau trydydd sector yn ymateb mewn nifer o ffyrdd gwahanol i'r sefyllfa gwariant cyhoeddus presennol.

22. Mae nifer o fudiadau wedi uno ac wedi mynd ati i gydweithio mewn ffyrdd eraill. Fodd bynnag, byddai'r sector yn bryderus pe bai cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno mesurau rhesymoli amhriodol. Mae gwahanol fudiadau'n bodoli i wasanaethau anghenion a buddiannau eu cleientiaid neu ddinasyddion ar ôl iddynt fagu gwreiddiau yn lleol a datblygu eu gwasanaethau arbenigol, drwy eu gallu i ymgysylltu a chynnwys eu cymunedau lleol. Mae'r rhain yn nodweddion na ddylid eu colli.

23. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, bydd uno a gweithio ar y cyd yn gwneud synnwyr, a gall hynny arwain at ddarparu gwasanaethau gwell a mwy cynaliadwy i ddinasyddion. Gallai hyn helpu i arbed adnoddau, er y dylai'r pwyslais fod ar grynhoi ac ymestyn gwasanaethau ac ychwanegu gwerth yn hytrach na phoeni am leihau costau'n unig.

24. Er enghraifft:

- Mae Cartrefi Cymunedol Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru wedi creu strwythur grŵp, o dan un Prif Weithredwr Grŵp, sy'n rhannu gwasanaethau cefn swyddfa, yn ogystal â chyfuno polisi ac arbenigeddau eraill i sicrhau effeithlonrwydd ychwanegol. Meddai Nick Bennett, Prif Weithredwr y Grŵp *"Mae'n bwysig bod ein mudiad yn gallu dangos ymrwymiad gwirioneddol i'r llywodraeth i gynnig gwell gwerth am arian o goffrau cyhoeddus. Bydd y trefniadau cydweithredol hyn, rhwng dau fudiad cryf ac uchel eu parch o'r trydydd sector, yn sicrhau llais cryfach yn y maes tai, yn helpu i ddarparu'n gwasanaethau'n fwy effeithlon ac yn sicrhau gwell gwerth am arian."*
- Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru wedi uno i greu Age Cymru.
- Mae Grwpiau Cymorth i Ferched a Llamau wedi uno, gan alluogi gwasanaethau Cymorth i Ferched i elwa ar y seilwaith a ddarperir gan Llamau ac i gryfhau eu darpariaeth
- Mae grŵp o ddarparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylwadau o'r trydydd sector wedi creu cwmni newydd ar y cyd, gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, ac mae wedi gwneud bidiau llwyddiannus am gontractau

cenedlaethol, ac mae ganddo'r potensial i ddatblygu gwasanaethau a chymorth a rennir.
- Mae Gofal Hosbis Sefydliad Dewi Sant a Hosbis Dydd Usk House wedi uno, a bydd hynny'n eu galluogi i wella'u gwasanaethau ar draws ardal ddaearyddol ehangach
- Mae AWETO a Chynghrair Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro yn uno, a byddant yn rhannu swyddfa, gan greu siop un-stop a fydd yn galluogi'r ddau fudiad i elwa
- Mae'r cynlluniau Crossroads yng Ngheredigion, Sir Benfro a Phowys wedi ffurfio un mudiad, Crossroads Canolbarth a Dwyrain Cymru, sy'n cyfuno'r gwaith o weinyddu a rheoli eu gweithrediadau, i greu corff mwy cynaliadwy a fydd yn gyfrwng i sicrhau systemau cymorth gweinyddol mwy cost effeithiol ac effeithlon; a fydd yn hwyluso mynediad at gyfleoedd gwell a chontractau mwy; yn cynyddu lefel y gwasanaeth a ddarperir; ac yn caniatáu iddo weithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus. Gwnaethpwyd hyn heb amharu ar y ddarpariaeth, heb ddiswyddiadau gorfodol a heb orfod newid telerau ac amodau'r staff.

25. Mae cyfle hefyd i gynyddu cydweithredu, er enghraifft, yr ymdrech o fewn gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru i gael dull mwy 'cydlynus' o weithio rhwng y trydydd sector, y sector a gynhelir a Llywodraeth y Cynulliad, gan geisio sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir a'r cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru nid yn unig o'r safon gorau posibl ond eu bod hefyd yn cael eu gwella, pan mae hynny'n bosibl. Mae cydweithredu'n golygu bod pob mudiad sy'n gysylltiedig â rhaglen waith yn deall y rôl sydd gan bob rhan o'r bartneriaeth a'u bod yn gallu dwyn ei gilydd i gyfrif am lwyddiant neu fethiant y gwaith hwnnw - a'r casgliad yw bod enillion effeithlonrwydd yn bosibl os yw cryfderau ac enillion yn cael eu canfod a bod sylw'n cael ei roi iddynt yn gynnar yn y broses. Mae'n ddigon posibl y gellid datblygu arbedion ac effeithlonrwydd ymhellach drwy rannu adeilad a dyletswyddau cefn swyddfa a hefyd drwy rannu cynlluniau strategol ac ati.

26. Mae'r olaf yn dechrau ennill ei blwyf mewn gwasanaethau ieuenctid – mae'r fethodoleg sy'n cael ei mabwysiadu a'i hyrwyddo gan y Gangen Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn Llywodraeth y Cynulliad yn annog rhannu adeiladau fel ffordd o wella dewis i bobl ifanc drwy leoli staff / gwirfoddolwyr y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir 'o dan yr un to' a gallai fod yn ddewis amgenach na cholli staff cyflogedig yn y broses.

27. Ceir nifer o enghreifftiau lle mae mudiadau'n rhannu adeiladau, ac mae'r rhain yn amrywio o ddau fudiad sy'n rhannu un swyddfa i gynllun mawr sy'n cynnig pencadlys i nifer o fudiadau sy'n elwa ar un dderbynfa, systemau ffôn, rhwydweithiau TG a chyfleusterau eraill.

28. Mae CGSau a chanolfannau gwirfoddoli'n cymryd nifer o gamau i weithio'n fwy effeithlon â'i gilydd, ac i weithio â'r sector yn eu meysydd eu hunain i fod yn fwy effeithlon. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

    - Rhannu adeiladau a chanolfannau adnoddau trydydd sector mewn nifer o ardaloedd, gan gynnig rhent rhatach i grwpiau lleol, yn ogystal â rhannu gwasanaethau (rhannu derbynfa, cyfleusterau cyfarfod a chynadleddau, rhwydweithiau TG, teleffoni, cyfleusterau argraffu, stampio llythyrau a gwasanaeth dosbarthu
    - Gwasanaethau cyflogres i fudiadau eraill; mae gan un mudiad dros 120 o gleientiaid sy'n cynrychioli dros 400 o gyflogeion
    - Gwasanaethau Archwilio Annibynnol a chyngor ariannol ar gyfer mudiadau lleol
    - Clwb Ynni sy'n gynllun arbed costau i aelodau yn sgil cyfradd swmp-brynu a negodwyd drwy ddefnyddio cydfargeinio, a disgwylir iddo arwain at o leiaf 10% o arbedion mewn costau cyfleustodau

- Profi contractau a gwasanaethau presennol ar y farchnad (*ee* yswiriant, gwasanaethau adnoddau dynol) ac ail-negodi i leihau costau
- Mudiadau'n trefnu cyflenwyr a gwasanaethau ar y cyd (*ee* argraffu, llungopïo, postio, TG, hyfforddiant ayb)
- Gweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus lleol i wella cysylltedd swyddfeydd, lleihau cost y gwelliannau hyn am eu bod yn cael eu cwblhau ochr yn ochr â gwaith sy'n cael ei wneud eisoes, a lleihau costau ffôn a TG
- Rhannu swyddi â CGSau cyfagos
- Rhannu cynrychiolaeth ar bartneriaethau sector cyhoeddus traws ffiniol
- Cytuno ar drefniadau ffurfiol i lenwi swyddi staff allweddol mudiadau cyfagos os ydynt yn absennol.

29. Ar lefel fwy cyffredinol, gellir manteisio ar gynlluniau eraill i fod yn fwy effeithlon. Mae WCVA yn galluogi mudiadau i fanteisio ar amrywiaeth o ostyngiadau ar wasanaethau sydd ar gael i fudiadau trydydd sector, gan gynnwys:

- nwyddau hyrwyddo corfforaethol
- gostyngiadau ar ofod a chyfleusterau cynadledda
- gostyngiad ar feddalwedd cyfrifiadur
- gostyngiad ar wasanaeth cyfieithu
- cyfleusterau ystafelloedd cyfarfod
- gwasanaeth cyflogres
- gostyngiad ar wasanaeth cynghori ac indemniad adnoddau dynol
- gostyngiad ar wasanaeth cynghori ar iechyd a diogelwch
- telegyfathrebu arbenigol ar gyfer y sector
- yswiriant i'r trydydd sector
- Webspring (datblygu gwefannau)
- gwasanaeth recriwtio i'r trydydd sector drwy wefan *Recruit 3*, *Rhwydwaith Swyddi* (wythnosol) a thudalennau *Recruit 3 yn Big Issue* (wythnosol)
- gwasanaeth postio drwy *Rwydwaith Cymru* a'r llinell gymorth
- cyfle i aelodau ddatblygu masnachu ar-lein drwy www.3to3.org.uk
- Trwydded consortiwm ChwilGrant ar gyfer cynghorau gwirfoddol sirol

30. Mae WCVA hefyd wedi cytuno ar drefniadau gyda Gwerth Cymru i alluogi mudiadau trydydd sector i gael gafael ar gyflenwadau a gwasanaethau drwy gontractau fframwaith a negodwyd ar gyfer prynwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Lleihau ac osgoi costau, ac ychwanegu gwerth

31. Yr her fwyaf yw sicrhau dilyniant yn y cymorth a ddarperir i fudiadau trydydd sector y mae eu gwaith yn:

- Canolbwyntio ar ataliaeth neu ymyrraeth gynnar, gan osgoi neu leihau costau cyhoeddus llawer uwch dros gyfnod cymharol fyr
- Denu adnoddau ychwanegol (ariannol neu ddynol) i roi mwy o werth i bobl a chymunedau
- Meithrin y gallu mewn cymunedau i weithredu drostynt eu hunain a galluogi pobl i gynorthwyo'i gilydd a hybu lles meddyliol
- Gwbl angenrheidiol am na allai'r un asiantaeth neu grŵp o asiantaethau eraill ddarparu'r gwasanaeth a gynigir
- Cynnig dulliau mwy effeithlon ac effeithiol o gyflawni amcanion.

32. Mae buddiannau cefnogi'r sector yn cael eu dangos yn yr enghreifftiau canlynol.

33. Yr hyn sy'n unigryw yw bod y rhan fwyaf o fudiadau trydydd sector yn ychwanegu gwerth ariannol uniongyrchol at unrhyw gyllid a dderbynnir gan y sector cyhoeddus, gan sicrhau cyllid o ffynonellau ychwanegol yn ogystal ag ychwanegu gwerth

ymarferol drwy ymdrechion eu gwirfoddolwyr. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan WCVA ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mapio'r gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles a ddarperir gan fudiadau trydydd sector yng Nghymru. Mae'r ymchwil wedi amcangyfrif bod y sector yn darparu cyllideb gwasanaeth gwerth £292 miliwn; a bod ychydig llai na 50% o'r arian hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a'r GIG. Am bob £1 a gafwyd, sicrhaodd y sector £1 yn ychwanegol o ffynonellau eraill. Dangosodd yr un ymchwil bod o leiaf 120,000 o bobl yn gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hyn. Roedd dros 30,000 o gyflogeion, 5,000 o hyfforddeion, ac 85,000 o wirfoddolwyr. Yn wir, roedd gwirfoddolwyr yn cyfrannu'r hyn sy'n cyfateb i bron i 30,000 o swyddi amser llawn.

34. Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi canfod fod pob £1 mae'n ei wario ar ei raglen Addasiadau Ymateb Cyflym yn arbed tua £7.50 i wasanaethau cyhoeddus drwy alluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty'n gynt a lleihau blocio gwelyau, derbyn llai o gleifion i'r ysbyty, ac osgoi costau gofal preswyl a chymorth mwy costus.

35. Dangosodd yr ymchwil Matrix i gymorth sy'n gysylltiedig â thai – a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad – fod £1.68 yn cael ei arbed am bob £1 a wariwyd mewn meysydd polisi eraill megis diogelwch y gymuned ac iechyd. Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan fudiadau trydydd sector yn bennaf. Arbedodd un mudiad sy'n darparu llety i saith oedolyn sydd angen cymorth dwys £0.5m i'r awdurdod lleol yn ei flwyddyn gyntaf drwy ddod â chleientiaid a oedd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir yn ôl i'w hardal leol.

36. Mae ymchwil yn Lloegr i gynllun peilot y Prosiectau Partneriaethau ar gyfer Pobl Hŷn (POPP) yn dangos bod gwaith ataliol yn gallu bod yn effeithiol yn ogystal â rhoi gwerth am arian: am bob £1 a wariwyd ar wasanaethau ataliol, sicrhawyd £1.73 ar gyfartaledd mewn budd i'r economi iechyd a gofal cymdeithasol, hyd yn oed yn y tymor byr. Mae POPP wedi cynyddu'r sail tystiolaeth ar fuddiannau ataliaeth, ymyrraeth gynnar ac integreiddio drwy hybu dulliau o gydweithredu i annog annibyniaeth yn hytrach na dibynnu ar ofal tymor hir mewn ysbyty neu sefydliad. Y prif gasgliadau sy'n deillio o'r ymchwil yw bod diwallu anghenion pobl drwy ddefnyddio dull ataliol yn gallu sicrhau effeithlonrwydd; mae modd cael enillion o'r fath ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol; gellir gwella ansawdd bywyd drwy ddulliau ataliol; a gellir cynnal gwasanaethau ataliol (gan eu bod yn aml yn ennill y ddadl drwy ddangos buddiannau o ran cost).

37. Mae pob £1,000 a roddir gan Amgylchedd Cymru i brosiectau cymunedol yn denu £2,000 arall mewn arian neu nwyddau o ffynonellau eraill, ac mae'n recriwtio 7 o wirfoddolwyr. Yn 2009-10, llwyddodd 160 o grantiau gwerth cyfanswm o £610,335 i alluogi 6,641 o wirfoddolwyr i ymgymryd â 171,440 o oriau o weithredu dros yr amgylchedd ac i ddenu £1,305,146 mewn cyllid ychwanegol.

38. Mae Cartrefi Cymunedol Bron Arfon yn cefnu ar arferion rheoli tai traddodiadol ac yn rhoi pwyslais ar ddatblygu cymunedau cynaliadwy, ac mae hyn yn dylanwadu ar bob agwedd ar ei fusnes a'i drefniadau caffael. Mae hefyd yn meithrin cysylltiadau â thenantiaid a phreswylwyr i greu rhandiroedd a mannau tyfu cnydau cymunedol, ac i ddarparu golau stryd sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy.

39. Mae mudiadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl agored i niwed yn lleihau'r costau y byddai cyrff cyhoeddus eraill yn gorfod eu hysgwyddo fel arall. Er enghraifft, mae Canolfan Gymunedol y Cyrenians yn gweithio â rhai o bobl fwyaf difreintiedig y gymuned yn Abertawe yn un o'r wardiau mwyaf amddifadus yn y DU. Mae'r ganolfan yn arbed symiau sylweddol i'r GIG a thrwy atal troseddu, yn ogystal â chynnig llwybr i ailintegreiddio â chymdeithas.

40. Ers tair blynedd bellach, mae Crossroads Brycheiniog a Maesyfed fel y gelwid ef yn wreiddiol, ond a adwaenir yn awr fel Crossroads Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi bod yn rhedeg prosiect peilot ym Mhowys, sy'n gweithio i gynorthwyo pobl sy'n byw â chanser a'u gofalwyr. Mae'n ffaith wybyddus bod y straen a brofir gan ofalwyr, o ganlyniad i'r gofal a ddarperir ganddynt, yn cael effaith negyddol iawn ar eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae'n anorfod bod hynny'n arwain at gostau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan na fydd y gofalwyr eu hunain yn gallu cynnig gofal. Yn achos gofal lliniarol, mae'r effaith yn fwy trawiadol fyth, gan fod y cyfraddau marwolaeth ar gyfer dioddefwyr canser benywaidd oddeutu 44% a 57% ar gyfer dynion (*data'r Cancer Recovery Foundation 1976-2005*). Mae cael dewis ble i farw a gallu marw ag urddas o bwys mawr, ac mae effaith y prosiect peilot wedi bod yn sylweddol yn hyn o beth. Yn ystod oes y prosiect hyd at 31 Awst 2010, mae 119 o gleifion a'u gofalwyr wedi elwa; roedd gan 59 o gleifion ddiagnosis terfynol a chafodd 47 (80%) ohonynt farw yn eu cartref. Amcangyfrifir fod yr arbedion i'r GIG yn ystod y cyfnod hwn dros £250,000, ac arbedwyd hynny gan wasanaeth sy'n costio £50,000 y flwyddyn.

41. Dangosodd Arolwg Cyllido Rheoli Casglu Gwastraff Trefol ar Fin y Ffordd yng Nghymru a gynhaliwyd gan RPS Planning in Development yn 2007 fod mudiadau ailgylchu cymunedol yn casglu deunydd i'w ailgylchu ar gost o £0.24 am bob casgliad unigol, sy'n sylweddol is na chost contractwyr preifat (£0.59) ac awdurdodau lleol (£0.72). Amcangyfrifodd yr un astudiaeth y gellid lleihau prif ffigurau costau gwasanaethau casglu deunydd ailgylchu ar fin y ffordd gymaint â £21.2m *y casgliad* drwy ddefnyddio mudiadau ailgylchu cymunedol fel y darparwyr mwyaf cost effeithiol.

42. Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn Rhondda Cynon Taf wedi gwneud cyfraniad uniongyrchol at arbedion sylweddol yn y modd mae budd-daliadau'n cael eu gweinyddu yn dilyn adolygiad y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Corfforaethol o'r mater. Dewiswyd gwaith Craffu ar Dlodi Plant yr awdurdod lleol fel buddugwr yn y categori Cydweithio yng Nghynhadledd Flynyddol y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CfPS). Dangosodd yr adolygiad hwn sut y gall Craffu weithredu fel hwylusydd, a oedd yn yr achos hwn wedi dwyn ynghyd swyddogion budd-daliadau a Phrif Weithredwr y Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol at ei gilydd. Arweiniodd hyn at 17 o argymhellion ar gyfer gwella, ac mae pob un ohonynt wedi'u gweithredu, sydd wedi gostwng yn sylweddol yr amseroedd prosesu ar gyfer hawliadau newydd ar gyfer Budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor, gwella'r wefan i'w gwneud yn haws i'w defnyddio a neilltuo adnoddau i dalu am raglen 2 flynedd i annog pobl i wneud cais am fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Am y gost o £25,000 ym mlwyddyn gyntaf y prosiect, mae wedi arwain at hawlio budd-daliadau gwerth £506,000 – sy'n cyfateb i £20.24 am bob £1 a fuddsoddwyd yng ngwaith y prosiect. Mae Swyddogion Budd-daliadau a CAB yn dal i gwrdd yn rheolaidd, sydd arwydd o gryfder eu perthynas waith, ac mae gwelliannau'n dal i gael eu gwneud gyda system e-hawlio newydd yn cael ei chyflwyno ar 30 Mehefin 2010.

43. O ganlyniad i'r gwaith hwn, neilltuwyd adnoddau i ariannu prosiect allgyrraedd. Mae'r gwaith hwn gan CAB wedi sicrhau £750,000 yn ei 18 mis cyntaf, ac mae'n gobeithio sicrhau £1 miliwn dros 2 flynedd, a hynny yn dilyn buddsoddiad gwreiddiol o £50k dros yr un cyfnod. Mae'r awdurdod lleol wedi dweud bod y gwaith craffu wedi gwella amseroedd prosesu, wedi golygu llai o ddelio dwbl ac mae wedi arwain at wasanaeth symlach a mwy effeithiol. Roedd o'r farn bod y CAB yn gweithredu fel y cyfaill beirniadol yr oedd ei angen arno, gan helpu i symleiddio prosesau er budd unigolion a'r darparwr gwasanaeth.

44. Mae Cymru Ddiogelach yn cynnig gwasanaeth “atgyfnerthu targed”, hynny yw, gwneud cartref dioddefwr trais domestig neu drais rhywiol yn ddiogel, fel eu bod nhw’n gallu aros yn eu cartref yn hytrach na gorfod symud i loches neu dai blaenoriaeth. Mae gwario tua £250 y cartref yn arbed o leiaf £2000 o arian cyhoeddus.

45. Yn y system gyfiawnder i bobl ifanc, gall lle mewn carchar neu ganolfan i droseddwyr ifanc gostio hyd at £200,000 y flwyddyn y pen, tra bod cynllun mentora un i un yn costio tua £1000 y pen y flwyddyn ar gyfartaledd. Bydd cefnogi’r rhai sydd mewn perygl o droseddu neu aildroseddu yn arbed llawer iawn o gostau eraill i’r cyhoedd, yn gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phe bai’n cael ei leoleiddio, gellid ei reoli i gefnogi cydlyniad a sefydlogrwydd cymunedau. Y trydydd sector fyddai’n gallu rheoli hyn orau.

Arloesi mewn gwasanaethau cyhoeddus

46. Mae’r enghreifftiau uchod yn dangos buddiannau gweithio mewn partneriaeth â mudiadau trydydd sector i ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

47. Mae Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi Llywodraeth y Cynulliad yn dal yn ei dyddiau cynnar, a hyd yma mae wedi canolbwyntio ar y sector cyhoeddus yn bennaf, a sut y gellir darparu ei wasanaethau presennol yn fwy effeithlon. Mae’n bwysicach nag erioed i ddatblygu’r thema arloesi yng nghyd-destun pwysau ac anghenion demograffig y dyfodol, a chan gadw’r sefyllfa o ran gwariant cyhoeddus mewn cof.

48. Mae ffyrdd yn bodoli i ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol a fydd yn creu ‘cacen’ fwy ac sy’n defnyddio, nid yn unig staff a chyllidebau’r sector cyhoeddus, ond hefyd ddefnyddwyr, teuluoedd, cymdogion, mudiadau trydydd sector lleol a’r gymuned ehangach mewn gwasanaeth cyflawn, sy’n mynd y tu hwnt i’r gwasanaethau traddodiadol a ddarperir ac sy’n manteisio ar adnoddau, sgiliau ac egni newydd. Byddai hyn yn golygu gwasanaethau wedi’u comisiynu a chymorth wedi’i drefnu sy’n ategu ei gilydd yn hytrach na gweithredu ar eu pen eu hunain. Er mwyn cyflawni hyn mae angen hafaliad newydd sy’n mesur *cyfanswm gwerth* gwasanaeth a’r buddiannau i’r dinesydd (gan ystyried yr *holl* adnoddau a ddefnyddir - amser staff cyflogedig, mewnbwn y defnyddwyr, amser gwirfoddolwyr, grwpiau cymorth cymunedol) yn erbyn buddsoddiad y sector cyhoeddus. Y wobr fyddai defnyddio’n cyllid cyhoeddus mewn ffyrdd sy’n denu adnoddau eraill - i gyflawni gwell gwerth i’r dinesydd.

49. Gallai hyn olygu dull newydd sy’n seiliedig ar ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd, lle mae gweithgareddau a gwasanaethau’n cael eu dylunio a’u darparu gan amrywiaeth eang o ddarparwyr – gan ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a’r sector cyhoeddus gyda’r dinesydd a’r gymuned yn ganolog i’r cyfan. Mae’n golygu buddsoddi yng ngallu a menter y gymuned er mwyn darparu gymorth ar y cyd sy’n ategu, ac yn ysgafnhau’r baich ar wasanaethau eraill. Gallai’r dull hwn gynnwys:

- Cymorth sydd wedi’i gyfeirio at y dinesydd
- Gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan y defnyddiwr gwasanaeth
- Gwasanaethau sy’n cael eu harwain gan y gymuned
- Gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan gymysgedd o wirfoddolwyr a staff
- Gwasanaethau integredig

50. Mae hyn yn digwydd eisoes yng Nghymru, gan ddarparu gwasanaethau gwell ar lai o gost. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Trafnidiaeth y tu allan i oriau o ysbytai a chymorth i bobl hŷn sy'n glinigol alluog i ddychwelyd adref, gan leihau'r niferoedd sy'n cael eu haildderbyn i ysbytai. Roedd yr arbedion ar gostau aildderbyn yn fwy na chost y gwasanaeth yn 2009.
- Cynnwys gwirfoddolwyr i ddarparu cymorth a chynnal cysylltiadau tymor hir â phobl ifanc sy'n gadael gofal ac wedyn yn annog pobl ifanc sy'n gadael gofal eu hunain i wirfoddoli drwy Wirfoddolwyr y Mileniwm.
- Cynnwys gwirfoddolwyr i wella profiadau cleifion mewn ysbytai mewn ffordd drefnus, a gymeradwyir gan yr undebau.
- Integreiddio gwasanaethau statudol a thrydydd sector mewn Gwasanaeth Gofal Canolraddol di-dor.
- Cynlluniau taliadau uniongyrchol sy'n cynyddu bodlonrwydd, annibyniaeth a rheolaeth y defnyddwyr, ac sydd hefyd yn arwain at arbedion a gwell gwasanaeth.
- Cynghreiriau cymunedol sy'n dod â phobl sydd angen gofal a chymorth a grwpiau lleol at ei gilydd i ffurfio rhwydweithiau a strwythurau ffurfiol ac anffurfiol i ateb eu hanghenion.

Casgliad

51. I gloi, gofynnir i gyllidwyr y sector cyhoeddus ystyried y materion canlynol sy'n deillio o'r dadansoddiad hwn:

- Mae cyllid y sector cyhoeddus i'r trydydd sector yn rhan fechan iawn o wariant yn gyffredinol, a bydd gostyngiadau'n cael effaith fach iawn ar yr arbedion y bydd yn rhaid eu gwneud
- Er hynny, mae mudiadau'n ymwybodol iawn o'r sefyllfa o ran cyllido, ac maent wrthi'n barhaus yn chwilio am ffyrdd o leihau costau
- Gall gostyngiadau mewn cyllid i'r trydydd sector gael effaith luosog arno drwy golli cyllid ac adnoddau ychwanegol y mae wedi arfer eu denu ar sail cyllid y sector cyhoeddus
- Byddai lleihau cyllid ar gyfer gwaith ataliol, ymyrraeth gynnar a meithrin galluoedd cymunedau ac adnoddau'n arwain at fwy o alw am wasanaethau statudol mwy costus
- Dylai adeiladu ar allu'r sector i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd sy'n manteisio ar gyd-gynhyrchu ac adnoddau cymunedol fod yn flaenoriaeth i raglen Effeithlonrwydd ac Arloesi gwasanaethau cyhoeddus
- Dylai'r asesiad o benderfyniadau cyllidebol ar gyfer y trydydd sector ganolbwyntio ar y deilliannau a'r gwerth ychwanegol sy'n deillio o gyllid y llywodraeth, ac nid ar y gost yn unig.